



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Allied Health-Services – Gogledd Cymru

**Allied Health-Services
Llawr 1af, Uned 6, Ash Court
Parc Busnes Parc Menai
Bangor
LL57 4DF**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

1 Mawrth 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid ichi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn ag Allied Health-Services – Gogledd Cymru

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cymorth cartref
Darparwr cofrestredig	Allied Health-Services Limited
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Mae pobl yn hapus gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn ac yn hoffi'r staff rheolaidd sy'n dod i ymweld â nhw. Mae cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y cymorth sydd ei angen arnynt, eu hoffterau a'u trefn arferol. Cwblheir archwiliadau i sicrhau bod pobl yn derbyn eu meddyginiaeth yn gywir a chysylltir â gweithwyr iechyd proffesiynol os bydd unrhyw anghenion iechyd yn newid. Mae perthnasau, staff a gweithwyr proffesiynol yn canmol y gwasanaeth a'i gyfathrebu da.

Cynhelir gwiriadau recriwtio ac mae staff yn derbyn hyfforddiant i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn gweithio i wasanaeth "*cynnes a gofalgar*". Mae gwelliannau wedi'u gwneud i sicrhau bod goruchwyliaeth fwy cadarn o'r gwasanaeth a ddarperir i bobl. Gwelsom rai meysydd y mae angen eu gwella, sef cynlluniau personol, sesiynau goruchwyllo, adroddiadau ar ymweliadau'r unigolyn cyfrifol, ac adolygiadau o ansawdd y gofal.

Llesiant

Mae gan bobl rywffaint o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd pobl, *“Rydyn ni'n cael popeth rydyn ni ei eisiau, ac mae'r staff yn dda i mi.”* Cânt ddewis beth sy'n digwydd, a phryd a sut, a gallant wneud yr hyn y maent am ei wneud. Mae pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a gwneir galwadau ffôn i gael adborth ganddynt am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae sylwadau yn cynnwys, *“Bob amser yn cymryd rhan, gofynnir i mi bob amser os oes angen gwneud newidiadau, a gallaf ofyn am newidiadau.”*

Mae anghenion llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol pobl yn cael eu diwallu. Mae cynlluniau personol yn rhoi rywffaint o wybodaeth fanwl am y cymorth y mae pobl ei eisiau a'i angen, gan gynnwys eu harferion. Mae gwybodaeth am anghenion iechyd ac unrhyw gysylltiad â gweithwyr proffesiynol yn cael ei chofnodi. Mae archwiliadau meddyginiaeth yn cael eu cwblhau i sicrhau bod y bobl yn derbyn y feddyginiaeth gywir ar yr amser cywir. Mae'r bobl yn hapus gyda'r staff sy'n eu cefnogi ac yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau. Dywedodd staff wrthym am y cymorth y maent yn ei gynnig i'r bobl, y maent yn eu hadnabod yn dda ac yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Dywedodd y bobl wrthym y gallant godi pryderon a chwynion, gan nodi: *“Unrhyw beth nad wyf yn hapus yn ei gylch, rwy'n peidio ag oedi cyn ffonio'r swyddfa ac yn hapus â'r ymatebion a gaf.”* Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisi wedi'i sefydlu, ond ni ddywedodd pob aelod o staff eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i hwn. Mae hysbysiadau am y rhan fwyaf o ddioglyddiadau yn cael eu hanfon at AGC yn ôl yr angen.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt ac mae rhai risgiau'n cael eu hystyried. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Maent yn cael eu cynnwys mewn gwneud dewisiadau am yr hyn y maent ei eisiau a chaiff adolygiadau eu cwblhau. Mae'r bobl, perthnasau, staff a gweithwyr proffesiynol yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau a gwnaethant sylwadau ar y cyfathrebu da â'r gwasanaeth. Cofnodir anghenion iechyd yn ogystal ag unrhyw fewnbwn proffesiynol ac apwyntiadau a fynychwyd. Mae'r cynlluniau y gwnaethom edrych arnynt yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn adnabod y bobl yn dda.

Mae rhai asesiadau risg ar waith a chynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol. Gwnaethom ganfod nad yw'r wybodaeth mewn cynlluniau ac asesiadau risg bob amser yn gyson nac yn glir nac yn cwmpasu'r holl risgiau a nodwyd. Er enghraifft, gwnaethom ganfod rhywfaint o wybodaeth anghyson am anghenion iechyd unigolyn a lefel y deiet yr oedd ei angen arno. Nid oedd gan unigolyn y nodwyd ei fod mewn perygl o gwmpo oherwydd meddyginiaeth asesiad risg cyfatebol ar waith ar gyfer hyn. Mae angen cwblhau asesiadau risg penodol ar gyfer epilepsi, diabetes a thagu hefyd lle mae hyn wedi'i nodi. Mae gwybodaeth am gyflyrau iechyd y bobl yn cael ei chofnodi mewn rhai asesiadau risg a chynlluniau meddyginiaeth ond nid yw bob amser yn amlwg yn eu cynlluniau personol. Rhaid i gynlluniau personol ystyried unrhyw asesiadau iechyd neu asesiadau perthnasol eraill ac unrhyw risg i les unigolion, ac mae hwn yn faes i'w wella.

Gwrandewir ar farn y bobl am y gwasanaeth. Cwblheir adolygiadau ffôn i gael adborth ar sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu a chymerir camau i ddatrys unrhyw faterion sy'n codi. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym am fforwm preswylwyr a gynhaliwyd yn ddiweddar ac a oedd yn rhoi cyfle i ddod â phobl a staff at ei gilydd a gwrandeo ar eu barn am y gwasanaeth. Dywedodd perthnasau eu bod yn *“hapus iawn gyda'r gefnogaeth a'r gwasanaeth gan Allied”* ac allwn nhw *“ddim gofyn am fwy gan Allied a'r gweithwyr cymorth”*.

Mae'r bobl yn derbyn eu meddyginiaeth yn ôl yr angen fel eu bod yn cadw'n iach. Mae siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau a'u harchwilio i nodi unrhyw faterion y mae angen eu codi gyda'r staff. Gwnaethom edrych ar gynlluniau ac asesiadau risg a oedd yn rhoi gwybodaeth i staff am feddyginiaethau'r bobl ac unrhyw alergeddau. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw elïau sydd i'w defnyddio ac ym mha le y dylid eu rhoi. Mae polisi meddyginiaeth ar waith ac mae staff yn derbyn hyfforddiant meddyginiaeth.

Yr Amgylchedd

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan niferoedd priodol o staff sy'n ddigon cymwys ac sy'n derbyn hyfforddiant. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod staff yn cael eu recriwtio'n barhaus ac nad oes unrhyw staff asiantaeth allanol yn cael eu defnyddio. Cadarnhaodd pobl a pherthnasau fod staff rheolaidd yn cyrraedd ar gyfer ymweliadau heb unrhyw alwadau'n cael eu colli. Mae ffeiliau staff yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol, gan gynnwys hanes cyflogaeth llawn, geirdaon, dulliau adnabod, a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae cofnodion yn dangos bod staff yn cael hyfforddiant i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y gwasanaeth. Cynhelir gwiriadau ar hap i weld sut mae staff yn cefnogi'r bobl. Cwblheir sesiynau goruchwyllo hefyd, ond nid yw'r rhain yn cael eu gwneud bob tri mis ac mae hwn yn faes i'w wella.

Mae gan staff yr amser angenrheidiol i deithio i alwadau a darparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl. Mae rotâu wedi'u hadolygu i sicrhau bod digon o amser i gyrraedd galwadau a'u gadael, ac i aros am y cyfnod gofynnol. Mae galwadau nad oes eu hangen mwyach neu sydd i'w lleihau yn cael eu trafod gyda phobl a'r awdurdod lleol, gan gofnodi unrhyw benderfyniadau a wneir a diweddarau gwybodaeth yn unol â hynny. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod *"erioed wedi colli ymweliad ac yn rhoi gwybod iddynt bob amser"*.

Mae'r gwasanaeth wedi hysbysu AGC am ddigwyddiadau yn ôl yr angen. Gwnaethom edrych ar wybodaeth am ddigwyddiadau, damweiniau a diogelu sy'n cofnodi pa gamau sy'n cael eu cymryd a phwy sydd wedi cael gwybod. Dywedir wrthym fod pob rheolwr yn ymwybodol o ba hysbysiadau y mae angen eu gwneud. Gwnaethom drafod â'r rheolwyr bod angen hysbysiadau am bob achos o COVID-19 positif o hyd.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt. Dywedodd uwch-reolwyr wrthym am y gwelliannau a wnaed ers yr arolygiad diwethaf. Mae systemau a goruchwyliaeth wedi gwella, gan gynnwys cadw cofnodion a thrywyddau archwilio ar gyfer cwynion, digwyddiadau a damweiniau, a diogelu. Cafodd y bobl, perthnasau, staff a gweithwyr proffesiynol adborth cadarnhaol ynghylch pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn cyfathrebu â nhw ac yn ymateb i bryderon. Adolygir polisïau a gweithdrefnau, ond mae angen i'r datganiad o ddiben adlewyrchu'n gywir y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r adroddiad ar ymweliad yr unigolyn cyfrifol yn cynnwys gwybodaeth fanylach, ond nid oedd yn dangos y siaradwyd/cyfarfuwyd â phobl, eu cynrychiolwyr neu staff fel rhan o'r broses. Mae adroddiadau sicrhau ansawdd hefyd wedi'u cwblhau, ond ar gyfer rhai gwasanaethau nid oedd hyn wedi'i wneud bob chwe mis, ac nid oedd yr adroddiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol neu ddangos tystiolaeth y siaradwyd â phobl a staff. Mae'r rhain yn feysydd i'w gwella.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
15	Nid yw cynlluniau gofal ac asesiadau risg bob amser yn ystyried unrhyw asesiadau iechyd neu asesiadau perthnasol eraill. Sicrhau bod cynlluniau ac	Newydd

	asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth glir a chyson i bob aelod o staff fod yn ymwybodol ohoni.	
36	Nid yw staff yn cael eu goruchwyllo bob tri mis. Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd.	Newydd
73	Mae ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol yn cael eu cwblhau ond nid ydynt yn dangos y siaredir â phobl neu staff am y gwasanaeth.	Newydd
80	Cwblheir adroddiadau adolygu ansawdd gofal ond nid oedd y rhain wedi'u cynnal bob chwe mis ar gyfer pob gwasanaeth. Nid ydynt yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol nac yn dangos bod pobl, cynrychiolwyr a staff wedi'u cynnwys yn y broses.	Newydd

Dyddiad cyhoeddi 16/05/2022